



Mae'r Prentisiaeth Lefel 3 mewn Sgiliau Manwerthu (Arweinydd Tîm) wedi'i chynllunio i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau manwerthu ar draws pob elfen o'r sector manwerthu. Mae hyn yn gynnwys y rhai a allai fod yn gyfrifol am eu hadran neu dîm eu hun. Bydd Prentisiaid sy'n Arwain Tîm yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys:

- Gwerthwr manwerthu proffesiynol.
- Masnachu gweledol manwerthu.
- Arweinydd tîm manwerthu.

Mae'r Fframwaith Prentisiaeth Arwain Tîm Manwerthu yn rhoi cyfle i ddysgwyr datblygu a thystio eu gwybodaeth a'u cymhwysedd o fewn y Diploma Lefel 3 mewn Sgiliau Manwerthu a'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Gwybodaeth Manwerthu. Gyda'i gilydd, mae'r cymwysterau hyn yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau manwerthu i ddysgwyr, megis:

- Trefnu staff.
- Rheoli stoc.
- Arbenigedd am gynnyrch.
- Cynllunio.
- Masnachu.
- Rheoli ac arwain.
- Cyllid a gweinydd.

Beth yw manteision y cymhwyster hwn?

Mae hwn yn gymhwyster seiliedig ar waith a fydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer gweithio yn y sector Rheoli Manwerthu, megis gwybodaeth am ddeddfwriaeth, arolygu stoc, gosod amcanion, gwneud penderfyniadau effeithiol a hyrwyddo gwella parhaus.

Pa gyfleoedd dilyniant sydd ar gael?

Gall y cymhwyster hwn gefnogi cyflogaeth i rolau Rheolwr Adran, Rheolwr Gwerthiannau, neu Reolwr Siop. Gall dysgwyr symud ymlaen i Brentisiaeth Uwch Lefel 4 mewn Rheoli Manwerthu.



Ar ôl cwblhau'r Brentisiaeth Lefel 3 mewn Manwerthu, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

Diploma Lefel 3 mewn Sgiliau Manwerthu (Rheoli) Tystysgrif Lefel 3 mewn Gwybodaeth Manwerthu Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif Lefel 2* a Chyfathrebu lefel 2*

** Os nad yw prentis wedi cyflawni TGAU A-C mewn Mathemateg neu Saesneg, bydd disgwyl iddynt weithio tuag at ein rhaglen Sgiliau Hanfodol. Bydd hyn yn datblygu ac yn dangos gallu'r dysgwr i ddefnyddio Saesneg a Mathemateg mewn sefyllfaoedd gwaith.*

Hyd y Rhaglen hon yw 16 mis.

Cyflwyno'r Cwrs

Bydd yr asesiad yn digwydd trwy ddysgu cyfunol, a byddwch yn cael eich cefnogi gan swyddog hyfforddiant sydd â phrofiad yn y diwydiant. Byddwch chi a'ch swyddog hyfforddiant yn cael sesiwn o leiaf unwaith y mis, a fydd yn cynnwys sesiynau hyfforddi ar-lein neu ymweliadau ar y safle hyd at 4 awr. Rydym yn teilwra ein cwrs i'ch anghenion.

Os oes angen i chi wneud eich sgiliau hanfodol, bydd hyn yn cael ei wneud ar ddechrau eich cwrs a gall gynnwys ymweliadau wythnosol gan diwtor sgiliau hanfodol.

Rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 43 credyd.



Grŵp M - Unedau Gorfodol

Teitl	Credyd
Gweithio'n effeithiol a chefnogi eraill mewn sefydliad manwerthu	10

Grŵp A - Unedau Dewisol

Teitl	Credyd
Archwilio lefelau stoc a rhestrau stoc mewn amgylchedd manwerthu	6
Rheoli staff i dderbyn nwyddau mewn amgylchedd manwerthu	5
Cyfrannu at wella gweithrediadau manwerthu yn eich maes cyfrifoldeb eich hun yn barhaus	10
Monitro a chefnogi'r defnydd o fan talu diogel yn ystod oriau masnachu	3
Trefnu a monitro storio stoc mewn amgylchedd manwerthu	6
Rheoli atal gwastraff a cholledion mewn amgylchedd manwerthu	11
Cynhyrchu amserlenni staffio i helpu tîm manwerthu i gyflawni ei dargedau	5
Monitro a helpu i wella diogelwch bwyd mewn amgylchedd bwyd	11
Cynnal argaeledd nwyddau sy'n cael eu harddangos mewn amgylchedd manwerthu i hyrwyddo gwerthiannau	6
Monitro a chynnal iechyd a diogelwch mewn amgylchedd manwerthu	13
Rheoli'r broses trafodion talu mewn amgylchedd manwerthu	9
Cyrchu nwyddau a gwasanaethau sy'n angenrheidiol mewn amgylchedd manwerthu	10

Grŵp B - Unedau Dewisol

Teitl	Credyd
Gwneud penderfyniadau effeithiol	3
Gosod amcanion a chynnig cymorth i aelodau tîm	5
Rheoli neu gefnogi cyfleoedd cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eich maes cyfrifoldeb eich hun	4
Rheoli gwrthdaro mewn tîm	3
Cynllunio, dyrannu a monitro gwaith tîm	5



Grŵp C - Unedau Dewisol

Teitl	Credyd
Gweithio gydag eraill i wella gwasanaeth cwsmeriaid	8
Gwella perthynas â chwsmeriaid	7
Hyrwyddo gwelliant parhaus	7
Monitro a datrys problemau gwasanaeth cwsmeriaid	6
Trefnu darparu gwasanaeth cwsmeriaid dibynadwy	6

Tystysgrif Lefel 3 mewn Gwybodaeth Manwerthu

Er mwyn cyflawni'r Dystysgrif Lefel 3 mewn Gwybodaeth Manwerthu, rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf 16 credyd, rhaid cyflawni o leiaf 10 credyd ohonynt ar Lefel 3. Rhaid i ddysgwyr gyflawni'r holl unedau gorfodol yng Nghrŵp M (10 credyd), ynghyd ag o leiaf 6 credyd pellach o'r unedau dewisol yng Nghrŵp A.

Grŵp M - Unedau Gorfodol

Teitl	Credyd
Deall datblygiad effeithiolrwydd personol a thîm mewn busnes manwerthu	4
Deall y broses gwerthu manwerthu	2
Deall rheoli risgiau iechyd a diogelwch ar safle busnes manwerthu	2
Deall gwasanaeth cwsmeriaid yn y sector manwerthu	2

Grŵp A - Unedau Dewisol

Teitl	Credyd
Deall sut y gellir gwella effeithiolrwydd gweithrediadau siop	3
Egwyddorion Goruchwylio Diogelwch Bwyd ar gyfer Manwerthu	3
Deall rheoli stoc mewn busnes manwerthu	3
Deall sut i gynnal gweithrediad llyfn o fan talu	3
Deall diogelwch ac atal colledion mewn busnes manwerthu	3